BETH OEDD MENYWOD YNG NGHYMRU YN EI WNEUD YN YSTOD Y RHYFEL BYD CYNTAF?

YN Y FFATRÏOEDD ARFAU

Gweithwyr yn **Ffatri Arfau Rhyfel Vulcan, Caernarfon.** Mae gan bob un fathodyn trionglog gweithwyr y rhyfel. Roedd llawer o ffatrïoedd bach fel hyn ledled Cymru. *[Mrs Nanno Hughes ©: W.Williams, Photographer, Castle Square, Caernarfon Gyda diolch i Casgliad y Werin Cymru]*

Poster yn hysbysebu am ferched a menywod i weithio mewn ffatrïoedd gwneud arfau.

At an inquest held at Swansea on Wednesday on Esther Devonald (33), of 32, Baglan-street, Swansea, a verdict was returned of death from jaundice.

Roedd **Esther Devonald** yn gweithio mewn ffatri ffrwydron. Bu farw o'r clefyd melyn oherwydd gwenwyn cemegol. Aeth llawer o weithwyr y ffatrïoedd yn sâl a bu rhai farw. *Cambrian Daily Leader 7fed Mehefin, 1917*

Erbyn **GWANWYN 1915** roedd arfau rhyfel o bob math yn brin, ac roedd **ARGYFWNG SIELIAU.** Cafodd ffatrïoedd gwneud arfau rhyfel eu rhoi dan reolaeth y llywodraeth, a chafodd llawer o rai newydd eu hagor, yn gwneud popeth o fwledi i sieliau ffrwydrol. Cafodd menywod eu hannog i weithio yn y ffatrïoedd hyn, a daeth miloedd o'r Cymry yn *'munitionettes'*. Roedd y tâl yn dda ond y gwaith yn beryglus ac yn niweidio eu hiechyd. Yn y Fferi Uchaf, sir y Fflint a Phen-bre, sir Gaerfyrddin roedd Ffatrïoedd Ffrwydron Cenedlaethol mwyaf Cymru.



OLWEN LEYSHON gweithwraig yn Ffatri Ffrwydron Genedlaethol, Pen-bre. Yma mae'n gwisgo ei hiwnifform, sy'n cynnwys trowsus.

womenandwar.wales
menywodarhyfel.cymru

ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI
CHARITY NUMBER/RHIF ELUSEN 1158204